



## PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL - CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU I'W CYMRYD

 13:00 i 16:00

 15/11/2021

 MS TEAMS

Cadeirydd	Siân Doyle
-----------	------------

Yn Bresennol (Aelodau)	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Siân Doyle	SD	Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rowan Gardner	RG	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
David Selway	DS	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rhidian Hurle	RH	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Carwyn Lloyd Jones	CLJ	Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rachael Powell	RP	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwybodaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Cofnodion wedi'u cadarnhau ar gyfer y:  
Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol 15 Tachwedd 2021

Darren Lloyd	DL	Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Jamie Graham	JG	Pennaeth Seiberddiogelwch	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Yn bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Julie Ash	JA	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Sophie Fuller	SF	Rheolwr Llywodraethu a Sicrwydd Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Laura Tolley	LT	Cydlynnydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
James Quance	JQ	Pennaeth Archwilio Mewnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
David Murphy	DM	Uwch Archwiliwr	Archwilio Cymru
Trevor Hughes	TH	Rheolwr Datblygu Busnes	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Andy Warburton	AW	Pennaeth y Rhaglen Gwybodaeth a Chofnodion Iechyd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rebecca Cook	RC	Cyfarwyddwr y Rhaglen ar gyfer yr Adnodd Data Cenedlaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
George Olney	GO	Prif Bensaer Cynorthwyol (Adnodd Data Cenedlaethol)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
----------------	-------	-----------

Cofnodion wedi'u cadarnhau ar gyfer y:  
Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol 15 Tachwedd 2021

Rachael Powell	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwybodaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
----------------	--------------------------------	------------------------------

Acronymau			
SHA	Awdurdod Iechyd Arbennig	LIDD	Llywodraethu a Diogelwch Digidol
LIG	Llywodraethu Gwybodaeth	CGG	Cyfarwyddiaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth
NDR	Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol		

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Gweithred i'w Chofnodi
1	<b>RHAN 1 — MATERION RHAGARWEINIOL</b>	Canlyniad	Gweithred i'w Chofnodi
1.1	<p><b>Croeso a Chyflwyniadau</b></p> <p>Croesawodd y Cadeirydd bawb i drydydd cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol.</p> <p>Atgoffodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol am bwysigrwydd gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw, gan rannu risgiau, materion ac unrhyw bryderon. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn rhedeg ar sail 'dim byd annisgwyl', gyda dysgu trefniadol yn ganolog i'r Pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn gallu gweithredu mewn ffordd llawer mwy effeithiol, os ydynt yn cael gwybod mor gynnar â phosibl am faterion a meysydd i'w huwchgyfeirio.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd wrth bawb a oedd yn bresennol, yn unol â'r cytundeb yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, fod sesiwn ddatblygu wedi digwydd cyn y cyfarfod, a chanlyniad hyn oedd adroddiad trosolwg y Rhaglen a ddarparwyd yn eitem 3.7.</p> <p>Cadarnhaodd y Cadeirydd, oherwydd cyfyngiadau parhaus, fod y cyfarfod yn cael ei gynnal ar ffurf rithwir, fodd bynnag, roedd papurau wedi cael eu huwchlwytho i wefan Iechyd a</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Gofal Digidol Cymru er mwyn i aelodau'r cyhoedd gael mynediad atynt.		
1.2	<b>Ymddiheuriadau am absenoldeb</b> Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<b>Datganiadau o Fuddiant</b> Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.4	<b>Blaengynllun Gwaith</b> Cyflwynodd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD), yr adroddiad a chadarnhaodd, yn dilyn sesiwn Datblygu'r Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, y byddai'r Adroddiad Trosolwg ar y Rhaglen Ddigidol yn eitem sefydlog i'r Pwyllgor wrth symud ymlaen.  Roedd y Pwyllgor wedi cytuno i archwilio ar wraidd rhaglenni a phrosiectau gwaith mawr a byddai'r canolbwyntio ar y Prosiect Adnodd Data Cenedlaethol yn ystod y cyfarfod.  Ychwanegodd CD fod disgwyl yr eitemau canlynol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Chwefror: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad Strategaeth Ymchwil ac Arloesi</li> <li>• Adroddiad Cau Trosglwyddo'r Ganolfan Ddata</li> </ul> <b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b> Nodi'r Blaengynllun Gwaith	Nodwyd	Dim i'w nodi
2	<b>RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO</b>	<b>Canlyniad</b>	<b>Gweithred i'w Chofnodi</b>
2.1	<b>Diweddariad am Statws Setliad yr EU</b> <b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b> Nodi Diweddariad am Statws Setliad yr EU	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.2	<b>Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Llywodraeth Cymru</b> <b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b>	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Nodi Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Llywodraeth Cymru		
2.3	<b>Diweddariad am Reoli Gwybodaeth Cleifion</b> <b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b> Nodi'r Diweddariad am Reoli Gwybodaeth Cleifion	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.4	<b>Cynllun Strategol Technoleg Iechyd Cymru 2021-25</b> <b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b> Nodi Cynllun Strategol Technoleg Iechyd Cymru 2021-25	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.5	<b>Rheoliadau Gweithio i Wella – Diweddariad</b> <b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b> Nodi Diweddariad y Rheoliadau Gweithio i Wella	Nodwyd	Dim i'w nodi
<b>3</b>	<b>RHAN 3 - PRIF AGENDA</b>	<b>Canlyniad</b>	<b>Gweithred i'w Chofnodi</b>
3.1	<b>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</b> Dyweddodd CD fod camgymeriad wedi digwydd, gyda Chofnodion mis Mai yn cael eu huwchlwytho i Borth y Bwrdd yn hytrach na Chofnodion mis Awst. Roedd y Cadeirydd wedi cymeradwyo'r cofnodion cywir a'u dosbarthu wedyn i'r holl aelodau i'w hadolygu a rhoi sylwadau arnynt. <b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b> Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Diwethaf, yn amodol ar dderbyn unrhyw newidiadau erbyn 19 Tachwedd 2021	Cymeradwyd	Dim i'w nodi
3.2	<b>Cofnod Gweithredu</b> Diolchodd y Cadeirydd i'r holl arweinwyr gweithredu am ddarparu diweddariadau digonol ar gamau gweithredu cyn y cyfarfod. <b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b> Nodi'r Cofnod Gweithredu a'r diweddariadau a ddarparwyd	Nodwyd	Dim i'w nodi
3.3	<b>Polisiau</b> Cyflwynodd CD yr adroddiad ac atgoffodd bawb a oedd yn bresennol bod nifer o bolisiau wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru fel gofyniad ar gyfer trosglwyddo'n Awdurdod Iechyd	Cymeradwyd a nodwyd	<b>GWEITHRED</b> — CLJ i adolygu a diweddar'u iaith o fewn y

Cofnodion wedi'u cadarnhau ar gyfer y:  
Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol 15 Tachwedd 2021

	<p>Arbennig. Nododd cyfarfod cyntaf y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2021 nifer o bolisiau i'w creu ac yn dilyn hynny sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i greu a chwblhau'r polisiau.</p> <p>Nodwyd y Polisi Gwrth-Faleiswedd gan Fwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig a'i gynnwys i'w gymeradwyo.</p> <p>Gwnaeth yr Aelod Annibynnol, Rowan Gardner (RG), sylw am yr iaith a ddefnyddir yn y polisi, a holodd a fyddai'n briodol newid o 'Dylid gwneud' i 'Rhaid gwneud', yn ogystal ag y dylai polisiau fod yn glir o ran arweinwyr cyfrifol, gan y byddai canlyniadau peidio â chadw at y polisi yn sylweddol.</p> <p><b>GWEITHRED 2021115-A01</b> — Carwyn Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr TGCh (CLJ), i adolygu a diweddaru'r polisi a'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor erbyn 29 Tachwedd 2021.</p> <p>Ychwanegodd CD fod disgwyl i'r polisiau canlynol gael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Chwefror:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth Ymchwil ac Arloesi</li> <li>• Polisi Eiddo Deallusol</li> </ul> <p><b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b></p> <p>Gymeradwyo'r polisi a gynhwysir yn yr adroddiad, yn amodol ar y camau uchod, a nodi'r diweddariadau a ddarparwyd.</p>		<p>Polisi Gwrth-Faleiswedd a'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor erbyn 29/11/2021</p>
3.4	<p><b>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</b></p> <p>Soniodd y Cadeirydd am y cynnydd sylweddol a wnaed o fewn y gofrestr Risg Gorfforaethol ac yn benodol yng nghyflwyniadau'r adroddiadau at wraidd y mater.</p> <p>Cadarnhaodd CD fod 15 Risg Gorfforaethol wedi'u neilltuo i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol; roedd 4 o'r risgiau'n cael eu hystyried yn breifat a byddent yn cael eu hadolygu yn y sesiwn breifat.</p> <p>Cynghorodd CD fod sgôr wedi gostwng yn DHCW0260 Rhestr o Gleifion a Warchodir, o 12 i 8 yn dilyn y gostyngiad yn y</p>	Nodwyd a Thrafodwyd	<p>GWEITHRED - Diweddariad ar gynnydd y Rhestr o Gleifion a Warchodir yn awtomatig o fewn y Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol yng nghyfarfod</p>

<p>defnydd o'r rhestr fel adnodd.</p> <p>Cadarnhaodd CD mai DHCW0204 system CANISC oedd risg uchaf y sefydliad o hyd.</p> <p><b>Gwasanaethau Gwybodaeth — Archwiliad at Wraidd y Mater</b></p> <p>Eglurodd Andy Warburton, Pennaeth y Rhaglen Gwybodaeth a Chofnodion Iechyd (AW) mewn perthynas â DHCW0260 Rhestr o Gleifion a Warchodir, fod y sgôr risg wedi gostwng gan ei bod wedi cael ei datgomisiynu gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, byddai'r tîm yn cynnal y rhestr hon nes bod system awtomataidd yn cael ei chanfod yn y rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol (NDR).</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y rhestr yn cael ei diweddarau â llaw gan y tîm rhag ofn y byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn am iddi gael ei defnyddio unwaith eto? Mewn ymateb, cadarnhaodd AW fod hynny'n gywir, ond ei bod yn bwysig nodi nad oedd unrhyw ddatblygiad pellach gyda'r rhestr, dim ond gofyniad cynnal a chadw.</p> <p><b>GWEITHRED 2021115-A02</b> Gofynnodd RG am ddiweddariad ar gynnydd Rhestr awtomataidd o Gleifion a Warchodir o fewn y Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor</p> <p>Esboniodd AW o ran DHCW0269 Newid Gwasanaeth, bod hyn wedi bod ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol am gyfnod hir. Cyngorodd AW nad oedd y newid gwasanaeth yn wydn am resymau daeryddol, roedd yn fater meddalwedd, yn hytrach na mater caledwedd. Cadarnhaodd AW fod y tîm yn edrych ar y rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol ar gyfer datrysiaid a bod gwaith yn mynd rhagddo i symud y gwasanaeth i'r Cwmwl.</p> <p>Nododd David Selway, Aelod Annibynnol (DS) y ddibyniaeth glir ar y rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol i ddarparu datrysiaid, fodd bynnag, nid oedd yn glir pryd y byddai'r risg yn cael ei lliniaru.</p>	<p>nesaf y Pwyllgor</p> <p>GWEITHRED — SD - Ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru, oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor, yn gofyn am eglurder ynghylch Swyddogaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn gofyn am ymateb cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Chwefror.</p> <p>GWEITHRED — DL - Mae cylch gwaith Iechyd a Gofal Digidol Cymru o ran data a defnydd gofal cymdeithasol yn cael ei archwilio ymhellach a'i ddwyn yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym</p>
--	---

<p>Esboniodd RG ei phryder gan fod hyn yn risg uchel, gydag effaith fawr, felly roedd angen deall blaenoriaethu'r risg a ble roedd yn gorwedd o ran cynllun gwaith yr Adnodd Data Cenedlaethol.</p> <p>Cadarnhaodd AW at ddibenion sicrwydd, mai defnydd eilaidd oedd y data, felly nad oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar ofal cleifion.</p> <p><b>Archwiliad At Wraidd y Mater Llywodraethu Gwybodaeth</b></p> <p>Esboniodd Darren Lloyd, Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth (DL) mewn perthynas â DHCW0263 Swyddogaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru — roedd angen cyfarwyddyd gan Arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru o ran amlinellu cyfrifoldebau Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac anfon cyfarwyddyd ffurfiol.</p> <p>Holodd y Cadeirydd pryd yr oedd disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru? Mewn ymateb, eglurodd DL nad oedd hyn yn hysbys, fodd bynnag, byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Chwefror.</p> <p>Dywedodd CD fod y risg yn anodd i'r tîm, gan ei fod yn aros am gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, felly awgrymodd y dylid ysgrifennu llythyr <b>GWEITHRED 2021115-A03</b> at Lywodraeth Cymru, oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor, yn gofyn am eglurder ynghylch hyn ac yn gofyn am ymateb cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Chwefror.</p> <p>Gofynnodd RG a fyddai hyn yn dod yn fwy cymhleth gyda chylch gwaith gofal cymdeithasol Iechyd a Gofal Digidol Cymru? Mewn ymateb, cadarnhaodd DL fod angen i gasgliad ehangach o Arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru ddeall cylch gwaith Iechyd a Gofal Digidol Cymru o ran data a defnydd gofal cymdeithasol a bod angen ystyried sut y byddid yn ymdrîn â hyn. <b>GWEITHRED 2021115-A04</b> Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei archwilio a'i ddwyn yn ôl gerbron y Pwyllgor, er gwybodaeth, yng Nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.</p> <p>Cynghorodd DL y Pwyllgor o ran DHCW0264 Addewid Data, bod hyn yn debyg i DHCW0263 gan ei fod yn aros am gamau</p>	<p>mis Chwefror er gwybodaeth.</p> <p><b>GWEITHRED</b> — CD - Adolygu hen risgiau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn fanwl yn y Pwyllgor nesaf ym mis Chwefror i weld sut y gellid eu symud ymlaen.</p>
--	---



	<p>gan Lywodraeth Cymru er mwyn bwrw ymlaen ag ymgyrch ar sut y defnyddir gwybodaeth gyhoeddus. Dywedodd CD fod angen sicrhau bod Iechyd a Diogelwch Digidol Cymru yn cyd-fynd â safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn oherwydd risgiau posibl i'w enw da.</p> <p>Gofynnodd DS, os oedd oedi parhaus wrth fynd i'r afael â'r risg hon, a fyddai'n effeithio ar y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi a chyflawni'r Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol? Mewn ymateb, cadarnhaodd DL y gallai fod effaith ar y rhain gan fod arloesi data o fewn eu cylch gwaith y ddwy raglen.</p> <p><b>GWEITHRED 2021115-A05</b> Dywedodd y Cadeirydd fod rhai hen risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a chytunwyd y byddai'r rhain yn cael eu hadolygu'n fanwl yn y Pwyllgor nesaf ym mis Chwefror i weld sut y gellid eu symud ymlaen.</p> <p><b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b></p> <p>Nodi statws y Gofrestr Risg Gorfforaethol, Nodi'r Risgiau Corfforaethol a neilltuwyd i'r Pwyllgor a Thrafodwyd archwiliadau at wraidd y mater y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth a Llywodraethu Gwybodaeth.</p>		
3.5	<p><b>Adroddiad Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol</b></p> <p>Cyflwynodd Michelle Sell, Prif Swyddog Gweithredol (MS) yr adroddiad a chadarnhaodd fod y Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol yn newydd i'r sefydliad ac yn parhau i esblygu. Mynegodd MS ddiolch i Julie Ash, Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol am ei chefnogaeth wrth sefydlu'r grŵp.</p> <p>Dywedodd MS bod dau hysbysiad 'dim byd annisgwyl' wedi cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Digwyddiadau Clinigol yn Ch2. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu hystyried yn ddigwyddiadau difrifol. Yn ogystal, roedd un hysbysiad 'dim byd annisgwyl' wedi cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â mater gweithlu yn ystod y chwarter.</p> <p>Ychwanegodd MS fod Cylch Gorchwyl y Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad i'w gymeradwyo.</p>	Nodwyd, cafwyd Sicrwydd a Chymeradwyd	Dim i'w nodi

	<p><b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b></p> <p>Nodi'r Adroddiad Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol i gael sicrwydd a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.</p>		
3.6	<p><b>Adroddiadau Sicrwydd</b></p> <p><b>Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth</b></p> <p>Gofynnodd DS am y gwasanaethau a oedd angen sicrwydd ôl-weithredol a amlinellir yn yr adroddiad, pryd y gall y Pwyllgor ddisgwyl diweddariad yn y meysydd hyn? <b>GWEITHRED 2021115-A06</b> Cadarnhaodd DL y byddai'r amserlenni'n cael eu harchwilio ac y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i DL am gynnwys yr ymarfer Meincnodi Llywodraethu Gwybodaeth a gafodd ei gynnwys yn yr adroddiad a gofynnodd a oedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfforddus gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Byrddau Iechyd, yr Ymddiriedolaethau a'r Awdurdodau Iechyd Arbennig eraill? Mewn ymateb, cadarnhaodd DL fod y cyfraddau llwyddiant cyffredinol yn dda, fodd bynnag, gellid edrych ymhellach ar sut y mesurir ansawdd ledled Cymru. Mewn ymateb, dywedodd James Quance, Pennaeth Archwilio Mewnol (JQ) fod hyn yn rhywbeth y gellid ei gynnwys yn y Cynllun Gwaith Archwilio gyda chefnogaeth cydweithwyr Archwilio Cymru.</p> <p>Canmolodd y Cadeirydd y tîm am ansawdd yr adroddiad.</p> <p><b>Adroddiad Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth</b></p> <p>Esboniodd AW fod tîm Power BI wedi'i sefydlu a bod gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar ansawdd a phroses lywodraethu ar gyfer adroddiadau cyhoeddus.</p> <p>Cadarnhaodd AW fod cyflwyniad cyntaf Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ennill Achrediad Deddf yr Economi Ddigidol wedi bod yn aflwyddiannus, fodd bynnag, bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a bod cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu gyda Phrifysgol Abertawe er mwyn datblygu hyn ymhellach</p>	Rhoddwyd sicrwydd	GWEITHRED — DL — Mae amserlenni ar gyfer gwasanaethau sydd angen sicrwydd ôl-weithredol yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Sicrwydd Gwybodeg Cymru ar gyfer Cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

	<p><b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b></p> <p>Dderbyn yr adroddiadau am sicrwydd.</p>		
3.7	<p><b>Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol</b></p> <p>Cyflwynodd MS Drosolwg y Rhaglen Ddigidol a oedd yn crynhoi cynnydd prosiectau digidol cenedlaethol lle'r oedd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru rôl sylweddol, megis rheoli'r prosiect neu'r rhaglen yn gyffredinol, neu gamau penodol megis caffael system newydd. Ymgwymerir â llywodraethu'r prosiectau hyn gan Fyrddau allanol gydag Uwch Swyddog Cyfrifol o'r GIG yn ehangach fel arfer.</p> <p>Cadarnhaodd MS y byddai Trosolwg y Rhaglen Ddigidol hefyd yn cael ei rannu â Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Tachwedd 2021.</p> <p>O ran y rhaglen E-ragnodi, eglurodd MS nad oedd hyn wedi'i sefydlu eto, ond fod bynnag, bod Cyfarwyddwr Rhaglen ac Uwch Swyddog Cyfrifol wedi'u penodi'n ddiweddar a oedd yn beth cadarnhaol.</p> <p>Gyda'r rhaglen Fferylliaeth, dywedodd MS fod gweithredu yn mynd rhagddo gyda'r dyddiad gweithredu terfynol wedi'i drefnu ar gyfer 26 Tachwedd. Bu hwn yn brosiect gweithredu llwyddiannus iawn gyda chydweithio</p>	Rhoddwyd sicrwydd	Dim i'w nodi

	<p>cydgysylltiedig,</p> <p>Diolchodd DS i'r tîm am yr adroddiad, gan ddweud mai dyna'r union beth yr oedd y Pwyllgor yn gobeithio ei dderbyn. Awgrymodd DS i wella'r adroddiad ymhellach y gellid cynnwys dyddiadau gorffen a hefyd, os yn bosibl, cynnwys carreg filltir fawr nesaf pob prosiect yn yr adroddiad.</p> <p>Dywedodd DS hefyd fod yr adroddiad yn tynnu sylw at y materion yn ymwneud ag adnoddau yr oedd aelodau'r Pwyllgor a Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn ymwybodol ohonynt, ond holodd a oedd y maes pryder allweddol o fewn yr adnodd Pensaernïaeth? Mewn ymateb, roedd yr adnodd Pensaernïaeth yn broblem, fodd bynnag, ar draws y sefydliad, roedd adnoddau'n dal i gael eu dargyfeirio i gefnogi gofynion a blaenoriaethau COVID-19.</p> <p>Canmolodd y Cadeirydd y tîm am y gwaith a wnaed wrth lunio'r adroddiad.</p> <p>Roedd y Pwyllgor yn cydnabod ac yn trafod y risgiau a'r materion yn ymwneud ag adnoddau ar gyfer cyflawni'r prosiectau, a phwysleisiodd pa mor bwysig yw bod hyn yn rhan hanfodol o broses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.</p> <p><b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b></p> <p>Nodi cynnydd prosiectau ym mhortffolio Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gael sicrwydd.</p>		
	<p><b>Diweddariad y Prosiect Adnodd Data Cenedlaethol</b></p> <p>Cyflwynodd Rebecca Cook, Cyfarwyddwr y Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol (RC), yr adroddiad a chadarnhaodd y canlynol:</p> <p>Sefydlwyd y rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol yn ffurfiol yn 2019 i ddarparu'r llwyfannau data lleol a chenedlaethol sy'n sail i'r cofnod Gofal Digidol ac Iechyd.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

Roedd cyflawni'r rhaglen yn gydweithrediad rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru, GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol yn rhan o Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol.

Tynnodd RC sylw at y ffaith bod rhaglen hyd yma wedi:

- Sefydlu strwythurau llywodraethu rhaglenni;
- Ymgymryd â recriwtio torfol;
- Ymgysylltu ar draws sawl sianel a sefydliad;
- Sefydlu partneriaethau masnachol ac academiaidd;
- Derbyn buddsoddiad ledled Cymru ar gyfer seilwaith a moderneiddio data;
- Archwilio defnyddio cwmwl;
- Gwerthuso offer rheoli API..

Roedd yr heriau allweddol hyd yn hyn yn cynnwys:

- Llywodraethu Gwybodaeth;
- Adnoddau;
- Rheoli disgwyliadau;
- Blaenoriaethau sy'n cystadlu;
- Cyd-weledigaeth cyflenwi.

Esboniodd RC ei bod wedi cael ei gwneud yn glir bod angen i'r rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol gyflawni ar gyflymder, felly, er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cyflawni ei hamcanion, cafwyd ailosod strategol o'r rhaglen i fynegi'n glir yr hyn y byddai'r rhaglen yn ei gyflawni gydag amserlenni clir. Ychwanegodd RC fod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r tîm cynllunio i sicrhau bod dibyniaethau clir ar gyfer cyflwyno prosiectau yn cael eu mynegi o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Rhoddodd RC drosolwg o Lywodraethu'r Rhaglen Adnodd

	<p>Data Cenedlaethol ac eglurodd yr holl gylch gorchwyl ar gyfer is-grwpiau oedd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.</p> <p>Gwahoddodd RC George Olney, Prif Bensaer (Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol) i roi trosolwg o'r hyn y byddai'r Adnodd Data Cenedlaethol yn bwriadu ei gyflawni o fewn ei gynllun prosiect.</p> <p>Cydymffurfiodd y Pwyllgor â'r heriau a wynebir yn y rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol a chroesawodd yr ailosod strategol ar gyfer y rhaglen a phwysleisiodd bwysigrwydd y rhaglen yn cyflawni rhai enillion cyflym fel blaenoriaeth.</p> <p><b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b></p> <p>Nodi Diweddariad y Prosiect Adnodd Data Cenedlaethol.</p>		
4	<b>Materion i Gloi</b>		
4.1	<p><b>Unrhyw Faterion Brys eraill</b></p> <p>Soniodd y Cadeirydd am y toriad yn y pŵer yn ddiweddar yn y Ganolfan Ddata a effeithiodd ar Systemau Practisiau Meddygon Teulu ac anogwyd y Pwyllgor i nodi y byddai'r gwersi a ddysgwyd o hyn yn cael eu hystyried drwy'r Grŵp Adolygu a Dysgu Digwyddiadau.</p> <p><b>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</b></p> <p>Nodi'r Unrhyw Fusnes Arall.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.2	<p><b>Eitemau ar gyfer Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd</b></p> <p>Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r angen i'r gofyniad adnoddau gael ei fynegi'n gywir a'i adlewyrchu ym mhroses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei amlygu i Fwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig yng nghyfarfod mis Tachwedd.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.3	Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf	Nodwyd	Dim i'w nodi



	<p>Dydd Mercher 16 Chwefror 2022</p> <p>13:00 – 16:00</p> <p>MS TEAMS</p>		
--	---	--	--